

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Y llwybr tuag at y Comisiwn Annibynnol ar ddatganoli yng Nghymru

Medi 2011

Ar 19 Gorffennaf 2011, cyhoeddodd y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y byddai Comisiwn Annibynnol yn cael ei sefydlu i edrych ar atebolrwydd ariannol Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Roedd yn rhagweld y byddai'r Comisiwn yn dechrau ar ei waith yn yr hydref.

Mae'r papur hwn yn amlinellu'r datblygiadau gwleidyddol a chyfansoddiadol a arweiniodd at sefydlu'r Comisiwn.

Gwasanaeth  
Ymchwil



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:  
[www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm](http://www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm)

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:  
Y Gwasanaeth Ymchwil  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

E-bost: [Research.Service@wales.gov.uk](mailto:Research.Service@wales.gov.uk)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011  
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

## **Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Y llwybr tuag at y Comisiwn Annibynnol  
ar ddatganoli yng Nghymru

Medi 2011

Alys Thomas

Rhif dogfen: 11/052



Gwasanaeth  
Ymchwil



# Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	1
2.	Y Comisiwn Annibynnol: y cyhoeddiad .....	2
3.	Comisiwn Calman a Chomisiwn Holtham .....	6
3.1.	Comisiwn Calman .....	6
3.2.	Y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid yng Nghymru (Comisiwn Holtham).....	8
4.	Bil yr Alban.....	12
5.	Adolygiadau o ddatganoli yng Nghymru ers 1999.....	14
5.1.	Comisiwn Richard .....	14
5.2.	Y Papur Gwyn: Trefn Llywodraethu Gwell i Gymru .....	15
5.3.	Deddf Llywodraeth Cymru 2006 .....	17
5.4.	Confensiwn Cymru Gyfan .....	17
6.	Ap Calman? .....	21



# Y Ilwybr tuag at y Comisiwn Annibynnol ar ddatganoli yng Nghymru

## 1. Cyflwyniad

Ar 19 Gorffennaf 2011, cyhoeddodd y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y byddai Comisiwn Annibynnol yn cael ei sefydlu i edrych ar atebolrwydd ariannol Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Roedd yn rhagweld y byddai'r Comisiwn yn dechrau ar ei waith yn yr hydref. Ymhellach, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol fod y Comisiwn wedi cyflwyno adroddiad ar atebolrwydd ariannol a bod Llywodraeth y DU wedi ystyried ei gynigion. Bydd y Comisiwn yn edrych ar y setliad cyfansoddiadol yng Nghymru "yng ngoleuni profiad". Mae'r Comisiwn yn bwriadu cyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau yn 2013.<sup>1</sup>

Mae'r papur hwn yn amlinellu'r datblygiadau gwleidyddol a chyfansoddiadol a arweiniodd at sefydlu'r Comisiwn.

Ceir gwybodaeth fanwl am y trefniadau presennol ar gyfer cyllido datganoli drwy Fformiwla Barnett ym mhapur y gwasanaeth ymchwil, [\*Fformiwla Barnett a newidiadau yng nghyllid datganoli\*](#).

---

<sup>1</sup> [Swyddfa Cymru, Amlinellu'r Camau Nesaf ar gyfer y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, Datganiad i'r Wasg, 19 Mai 2011](#)

## 2. Y Comisiwn Annibynnol: y cyhoeddiad

Yn dilyn Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Mai 2010, roedd y cytundeb rhwng clymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cynnwys yr ymrwymiad a ganlyn:

Depending on the outcome of the forthcoming referendum, we will establish a process similar to the Calman Commission for the Welsh Assembly.<sup>2</sup>

Roedd yr adolygiad o wariant y DU a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2010 yn datgan:

the Government recognises the concerns expressed by the Holtham Commission on the system of devolution funding. Depending on the outcome of the forthcoming referendum, the Government will consider with the Welsh Assembly Government the proposals in the final Holtham report, consistent with the work being taken forward in Scotland following the Calman Commission.<sup>3</sup>

Eglurwyd y geiriad ymhellach gan y Prif Ysgrifennydd i'r Trysorlys, y Gwir Anrhydeddus Danny Alexander AS, pan ymddangosodd gerbron Pwyllgor Cyllid y Cynulliad ym mis Tachwedd 2010.

**Mr Alexander:** One thing that I meant to say is that that part of the coalition agreement refers explicitly to a Calman-like process, which was a commission that was established to take forward the question of fiscal devolution, tax powers, and so on. In a sense, as you quite rightly observed, the language in the spending review had evolved slightly. Given the second Holtham report and the work that has taken place in this area, some people took the language of 'a Calman-like process' to imply that we would somehow require a new commission to be established to do the same work again before this issue could be addressed. Given the work of the Holtham commission, I do not think that that is a requirement that we would put on at all, which is why the language has evolved slightly.<sup>4</sup>

Cafwyd pleidlais gadarnhaol yn y refferendwm a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2011. Pleidleisiwyd o blaid dod â Rhan 4 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* i rym a, drwy wneud hynny, ehangu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Yn y cwestiynau cyntaf ar Gymru yn Nhŷ'r Cyffredin ar ôl y refferendwm, ymatebodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru i gwestiwn gan Simon Hart AS:

**Simon Hart:** Can the Secretary of State provide a timetable for the introduction of a Calman-style inquiry, as per the coalition agreement, and will she undertake a full consultation on the matter?

**Mrs Gillan:** I am grateful to my hon. Friend. When we established the coalition Government, we committed in the coalition agreement to establishing a Calman-like process for the Assembly. I will announce further details on that in the coming months.<sup>5</sup>

Wrth ymateb i gwestiwn arall gan David T.C. Davies AS, dywedodd:

---

<sup>2</sup> [Swyddfa'r Cabinet, \*The Coalition:our programme for Government\*, Mai 2010, p28](#)

<sup>3</sup> [Trysorlys EM, \*Spending Review 2010\*, CM7942 Hydref 2010 p71](#)

<sup>4</sup> [Cofnod y Trafodion, 22 Tachwedd 2010 p152](#)

<sup>5</sup> Dadleuon Tŷ'r Cyffredin, 16 Mawrth 2011, col 283



**Mrs Gillan:** I, too, am a devoted Unionist, but I recognise that the yes vote does not mean that the Welsh devolution settlement will stand still. It is a living object, which is why we are establishing a Calman-like process to examine the future of the Welsh Assembly and how we are governed across the UK, specifically in Wales.<sup>6</sup>

Ar 12 Gorffennaf 2011, anerchodd y Gwir Anrhydeddus David Cameron AS, Prif Weinidog y DU, Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a dywedodd:

Four months ago, Wales held a referendum and the people of Wales spoke decisively. The Assembly will no longer have to ask permission from Westminster to legislate on devolved matters. It is clear: there is no turning back from devolution, nor should there be. However, I believe that, with this new level of power that you hold, there should be new levels of accountability. So, as we promised, we will establish a process similar to the Calman commission in Scotland. The strength of Calman was that it worked by consensus—Conservatives, Labour and Liberal Democrats in Scotland coming together and agreeing a way forward. I am, therefore, asking all political parties to seek consensus on the future direction of devolution. Whatever the outcome of this process, I want you to know that I will always be here to work with you for the good of Wales as part of a strong United Kingdom.<sup>7</sup>

Ar 19 Gorffennaf, fel y nodwyd yn y cyflwyniad, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol ddatganiad i'r wasg yn nodi y byddai comisiwn annibynnol yn cael ei sefydlu i “edrych ar y materion cysylltiedig â datganoli ac atebolrwydd ariannol yng Nghymru a bydd yn ystyried gwaith Comisiwn Holtham”. Dywedodd:

It is only right that the Welsh Government is accountable for the money it spends. We are only at the beginning of the process, but I believe that by working together across parties, between governments and institutions, we can reach agreement which will deliver fiscal accountability to the Assembly.<sup>8</sup>

Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Gwladol y byddai Comisiwn Annibynnol yn cael ei sefydlu yn yr hydref a'r bwriad yw y bydd yn cyflwyno adroddiad ar ei argymhellion yn hydref 2012. Bydd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn parhau i gyd-weithio dros yr haf, ac mae'n rhagweld y bydd yn gwneud cyhoeddiadau pellach am y broses ar ôl y toriad.<sup>9</sup>

Hefyd, dywedodd bod Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ystyried pob agwedd ar adroddiadau Comisiwn Holtham ond “bydd trafodaethau ar wahân yn parhau ynghylch cynigion Holtham ar gyfer diwygiad cyllido ar gyfer Cymru.”<sup>10</sup> Bydd y Comisiwn yn ystyried datganoli ac atebolrwydd ariannol ond nid yw'n ymddangos y bydd diwygio fformiwla Barnett yn rhan o'i gylich gwaith.

Ar ôl i'r Comisiwn gyflwyno adroddiad ac ar ôl i Lywodraeth y DU ystyried ei gynigion, bydd y Comisiwn yn edrych ar y setliad cyfansoddiadol yng Nghymru

---

<sup>6</sup> Dadleuon Tŷ'r Cyffredin, 16 Mawrth 2011, col 284

<sup>7</sup> Cofnod y Trafodion, 12 Gorffennaf 2011

<sup>8</sup> [Swyddfa Cymru, Amlinellu'r camau nesaf ar gyfer datgaoli yng Nghymru, Datganiad i'r Wasg, 19 Gorffennaf 2011](#)

<sup>9</sup> Ibid.

<sup>10</sup> Ibid.

“yng ngoleuni profiad” ac mae’n bwriadu cyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau yn 2013.<sup>11</sup>

Cyhoeddwyd ymateb Prif Weinidog Cymru ar wefan Plaid Lafur Cymru:

Rwy’n croesawu’r cyhoeddiad ynghylch Comisiwn annibynnol i edrych ar ddatganoli ariannol i Gymru, ac y bydd y Comisiwn yn ystyried pob agwedd ar adroddiad Holtham ar gyfer diwygio ariannu fel rhan o’i waith. Byddwn yn parhau i weithio’n agos gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo mor gyflym â phosibl er mwyn cael pecyn ariannu tecach i Gymru.<sup>12</sup>

Ar 15 Gorffennaf, nodwyd yn y *Western Mail* bod arweinwyr y pedair plaid<sup>13</sup> yn y Cynulliad Cenedlaethol wedi llofnodi llythyr i’r Ysgrifennydd Gwladol yn galw am gomisiwn â chylch gwaith eang i edrych ar gamau pellach tuag at ddatganoli yng Nghymru.<sup>14</sup>

Cyhoeddwyd dyfyniadau o’r llythyr hwn ar flog Click on Wales y Sefydliad Materion Cymreig. Awgrymodd y pedwar arweinydd gyloch gorchwyl a dyma ddyfyniad o’r llythyr:

You will note that our suggested Terms [of Reference] envisage a two-stage process. The first stage should focus on fiscal devolution. This needs to proceed in parallel with inter-governmental discussions on fair funding and borrowing to which both Governments are committed. We have set out a time-table for both strands of this work which we hope the UK Government can agree to. The second stage would enable the Commission to look at the current constitutional settlement in the light of experience and to consider recommendations that might benefit the people of Wales... We all agree that the Commission needs to begin its work in September and to drive forward with momentum.<sup>15</sup>

Awgrymwyd gyloch gwaith fel a ganlyn ar gyfer y Comisiwn:

In parallel with the Commission, but separate from it, **borrowing powers** and ensuring fairer funding for Wales should be addressed through **inter-governmental** discussions. Borrowing powers should be for capital expenditure only; fairer funding should be addressed through revision of the block arrangements currently delivered through the Barnett formula. These discussions have **already begun** and should conclude no later than September 2012 at which point they should form part of a **coherent package** of reform along with the Commission report.

The Commission is asked to undertake its work in two parts. In the **first part**, the Commission should consider options for **fiscal devolution**, taking into account the work already done by the Holtham Commission. This work would include identifying the practical and legal issues to be resolved before any agreed proposals could be implemented. The Commission should commence its work in **September 2011** and report, with recommendations, no later than **September 2012**.

---

<sup>11</sup> Ibid.

<sup>12</sup> [Gwefan Plaid Lafur Cymru, Newyddion, Y Comisiwn ar ddatganoli \[fel ar 26 Mai 2011\]](#)

<sup>13</sup> Fe’i llofnodwyd gan Paul Davies. arweinydd dros dro grŵp y Ceidwadwyr Cymru yn y Cynulliad cyn y cyhoeddwyd mai Andrew R. T. Davies a etholwyd yn arweinydd y blaid.

<sup>14</sup> [Western Mail, Demand for Commission to look into further devolution for Wales, 15 Gorffennaf 2011](#)

<sup>15</sup> [Blog ‘Click on Wales’, Speaking with one voice Wales gets her way, 21 Gorffennaf 2011 \[fel ar 26 Gorffennaf 2011\]](#)

Secondly, and after **Part One** of the Commission has reported, **Part Two** of the Commission should look at the current **constitutional settlement** in the light of experience and recommend changes that would enable the National Assembly for Wales, and Welsh Government, to better serve the people of Wales.

The Commission is asked to report on this aspect of its remit, with recommendations as it considers appropriate, by **March 2013**.

The Commission should aim to reflect a consensual view. The Chair should have the confidence of the main Welsh political parties and both the Welsh and UK Governments.<sup>16</sup>

---

<sup>16</sup> Ibid.

### 3. Comisiwn Calman a Chomisiwn Holtham

Fel y gellir gweld uchod, mae'r holl ddatganiadau ynghylch y Comisiwn arfaethedig naill ai'n cyfeirio at Gomisiwn Holtham, Comisiwn Calman neu'r ddau ohonynt. Sefydlwyd y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru (Comisiwn Holtham) yn dilyn ymrwymiad yng nghytundeb 'Cymru'n Un' y Llywodraeth flaenorol i sefydlu Comisiwn i gynnal adolygiad o'r ffordd y caiff datganoli ei ariannu yng Nghymru.<sup>17</sup> Yn yr Alban, cylch gwaith y Comisiwn ar ddatganoli yn yr Alban (Comisiwn Calman) oedd cynnal adolygiad o ddarpariaethau *Deddf yr Alban 1998* yng ngoleuni profiad, ac argymhell unrhyw newidiadau i'r trefniadau cyfansoddiadol presennol. Ceir rhagor o wybodaeth am y ddau Gomisiwn isod.

#### 3.1. Comisiwn Calman

Sefydlwyd y Comisiwn ar Ddatganoli yn yr Alban,<sup>18</sup> o dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Kenneth Calman yn 2008, ac fe'i cefnogwyd gan brif wrthbleidiau'r Alban (Llafur, y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol) a Llywodraeth y DU ar y pryd, ond roedd Llywodraeth SNP yr Alban yn ei wrthwynebu.<sup>19</sup>

Roedd gan Gomisiwn Calman gylch gwaith eang iawn. Cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol yr Alban ar y pryd (y Gwir Anrhydeddus Des Browne AS) ei gylch gwaith i Dŷ'r Cyffredin:

To review the provisions of the Scotland Act 1998 in light of experience and to recommend any changes to the present constitutional arrangements that would enable the Scottish Parliament to serve the people of Scotland better, that would improve the financial accountability of the Scottish Parliament and that would continue to secure the position of Scotland within the United Kingdom.<sup>20</sup>

Dim ond rhan fach o gylch gwaith y Comisiwn oedd adolygu'r trefniadau ariannol presennol ac ystyried ffyrdd arall o gyllido Alban datganoledig.

Cyhoeddodd Comisiwn Calman ei adroddiad terfynol ym mis Mehefin 2009. Gwnaeth 63 o argymhellion. Nodir diben yr argymhellion hynny isod:

...improve the financial accountability of the Scottish Parliament, to improve the distribution of powers and functions, to improve joint working between the Parliaments and Governments and encourage co-operation on shared interests, and to strengthen the operation of the parliament itself. Taken together, we believe these recommendations will

---

<sup>17</sup> [\*Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru. Cytundeb rhwng grwpiau Llafur a Phlaid Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol\*](#), Mehefin 2007 [fel ar 25 Mai 2011]

<sup>18</sup> [\*Y Comisiwn ar ddatganoli yn yr Alban\*](#) [fel ar 25 Mai 2011]

<sup>19</sup> Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y cefndir i Gomisiwn Calman ym mhapur y Gwasanaeth Ymchwil: [\*The Scotland Bill\*](#), (Saesneg yn unig), Ionawr 2011

<sup>20</sup> [\*HC Deb 25 Mawrth 2008\*](#) col 8WS [fel ar 25 Mai 2011]

enable devolution to serve the people of Scotland better, while also consolidating Scotland's important place within the United Kingdom.<sup>21</sup>

O ran cryfhau atebolrwydd mewn perthynas â chyllid, roedd argymhellion y Comisiwn yn cynnwys:

- **cyfradd treth incwm Albanaidd** yn lle cyfradd newidiol gyfredol yr Alban. Byddai cyfraddau treth incwm presennol yr Alban yn cael eu torri 10c yn y bunt a châi Senedd yr Alban bŵer i bennu cyfradd newydd ar gyfer y gyfradd sylfaenol a'r gyfradd uwch. I wneud iawn am hynny, byddai yna doriad cyfatebol yn y grant bloc;
- **datganoli treth tir yr ardoll stamp, yr ardoll agregau, treth tirlenwi ac ardoll teithwyr awyr** i Senedd yr Alban, unwaith eto gyda gostyngiad cyfatebol yn y grant bloc;
- y grant bloc ddylai ffurfio gweddill cyllideb yr Alban o hyd, ond **dylai gael ei seilio ar anghenion cymharol**; nes i asesiad o anghenion ledled y Deyrnas Unedig gael ei gynnal, dylid parhau i bennu'r grant bloc drwy fformiwla Barnett;
- rhoi **pwerau benthyca ychwanegol** i Weinidogion yr Alban; a
- chryfhau'r berthynas rynglywodraethol sy'n ymdrin â chyllid.<sup>22</sup>

Roedd yr argymhellion nad oeddent yn rhai ariannol yn cynnwys:

- Holyrood i reoli cyfreithiau arfau awyr a chael y pŵer i bennu terfynau yfed a gyrru a therfynau cyflymder, treth tirlenwi a'r gallu i gynnal etholiadau'r Alban;
- cryfhau cyd-weithio rhwng San Steffan a Holyrood. Dylai Gweinidogion o'r ddwy ddeddfwrfa ymddangos gerbron y pwyllgorau perthnasol;
- rhoi pwerau ar fethdal, cyfraith elusennau a chofrestru gweithwyr iechyd proffesiynol yn ôl i San Steffan.

Cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol y DU Bapur Gwyn ym mis Tachwedd 2009,<sup>23</sup> a oedd yn cynnwys rhai o argymhellion y Comisiwn ac yn nodi cynlluniau ar gyfer Mesur yr Alban i'w gyflwyno ar ôl etholiad cyffredinol Mai 2010. Derbyniodd Arweinydd yr Wrthblaid ar y pryd (y Gwir Anrh. David Cameron AS), lawer o amcanion y Papur Gwyn, ond – petai'r blaid Geidwadol yn ffurfio llywodraeth yn sgil yr etholiad – dywedodd na fyddai'n cael ei rwymo gan y cynigion ac y byddai'n

---

<sup>21</sup> Y Comisiwn ar ddatganoli yn yr Alban, [\*Neges gan y Cadeirydd, Syr Kenneth Calman\*](#), 15 Mehefin 2009 [fel ar 25 Mai 2011]

<sup>22</sup> Y Comisiwn ar ddatganoli yn yr Alban, [\*Serving Scotland Better: Scotland and the United Kingdom in the 21st Century. An Overview of the Final Report\*](#), Mehefin 2009

<sup>23</sup> Swyddfa'r Alban, [\*Scotland's Future in the United Kingdom\*](#), Tachwedd 2009

llunio ei Bapur Gwyn a'i ddeddfwriaeth ei hun i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan Calman.<sup>24</sup>

Cyhoeddodd Llywodraeth SNP yr Alban ei Phapur Gwyn ei hun ym mis Chwefror 2009 a oedd yn amlinellu'r achos dros wella'r trefniadau cyllidol presennol a'r opsiynau ar gyfer diwygio.<sup>25</sup> Ymatebodd Michael Russell, Gweinidog Llywodraeth yr Alban dros y Cyfansoddiad ar y pryd, i adroddiad Comisiwn Calman mewn datganiad i'r wasg:

...the Calman Commission's recommendations on finance fall far short of the requirements of our nation, and the challenges of our times. Scotland needs full fiscal autonomy, allowing this country to raise all the money it spends and take the big economic decisions. That is the best and simplest solution - anything else risks being a messy fudge. Borrowing powers for Scotland are to be welcomed, although the Calman proposals are too limited.

At present, we have a 'pocket money parliament' - under the Calman proposals, Scotland would have a Saturday job but the pay would be deducted from our pocket money. Scotland has to go much further than a system of the Treasury giving with one hand and taking away with the other - which is why the Scottish Parliament and Government need fiscal autonomy and full financial powers.<sup>26</sup>

Yn dilyn yr etholiad cyffredinol ar 6 Mai 2010, roedd rhaglen lywodraethu Clymblaid y DU yn cynnwys ymrwymiad i weithredu argymhellion Comisiwn Calman yn yr Alban.<sup>27</sup>

### 3.2. *Y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid yng Nghymru (Comisiwn Holtham)*

Tasg Comisiwn Holtham oedd adolygu dulliau cyllido datganoli yng Nghymru, gan gynnwys:

- edrych ar fanteision ac anfanteision y dull presennol sydd wedi'i seilio ar fformiwla Barnett; a
- nodi ffyrdd gwahanol posibl o gyllido gan gynnwys y posibilrwydd y gallai Gweinidogion Cymru gael pwerau benthyca ac amrywio trethi.

Cyhoeddodd Comisiwn Holtham ei gasgliadau mewn dau adroddiad. Cyhoeddwyd ei adroddiad interim cyntaf *Ariannu llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru: Barnett a'r tu hwnt* ym mis Gorffennaf 2009.<sup>28</sup> Asesodd fformiwla Barnett fel y'i

---

<sup>24</sup> The Times, [White Paper hands tax-raising powers to Scotland](#), 25 Tachwedd 2009 [fel ar 25 Mai 2011]

<sup>25</sup> Llywodraeth yr Alban, [Fiscal Autonomy in Scotland: Taking forward our National Conversation](#), 24 Chwefror 2009 [fel ar 25 Mai 2011]

<sup>26</sup> Llywodraeth yr Alban, Datganiad i'r Wasg, [Calman Commission](#), 15 Mehefin 2009 [fel ar 25 Mai 2011]

<sup>27</sup> Swyddfa'r Cabinet, [The Coalition: our programme for government](#), Mai 2010 t. 28

<sup>28</sup> Y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid yng Nghymru, [Adroddiad cyntaf: Ariannu Llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru: Barnett a'r tu hwnt](#), (Saesneg yn unig), Gorffennaf 2009

gweithredwyd mewn perthynas â Chymru, a ystyriodd yr achos dros newid. Daeth i'r casgliad a ganlyn:

Nid oes gan Fformiwla Barnett...ddim diben penodedig oni bai am gyflawni'r dosbarthiad. Yn hyn o beth, mae'n llwyddo'n ddiamau. Y diben y gellir ei gasglu o'r modd y mae'n gweithredu yw cyflawni'r dosbarthiad gyda chyn lleied o wrthdaro gwleidyddol cyhoeddus â phosibl.<sup>29</sup>

Gwnaeth adroddiad interim y Comisiwn nifer o argymhellion, gan gynnwys:

- y dylai fformiwla Barnett gael ei disodli gan **fethodoleg sydd wedi'i seilio ar anghenion**.
- na ddylid cael **dirywiad pellach yn yr arian cymharol y pen a gaiff Cymru nes bod system ariannu newydd wedi'i sefydlu**. Gan hynny, dylai **fformiwla Barnett gael ei haddasu ar unwaith i gynnwys 'llawr' i atal rhagor o gydgyfeirio**. Cynigiwyd bod modd gwneud hyn drwy luosi bob cynnydd yng ngrant bloc Cymru a geid yn sgil fformiwla Barnett â 114 y cant.<sup>30</sup>

Gwnaeth adroddiad interim y Comisiwn nifer o argymhellion hefyd yn anelu at wella'r hyblygrwydd ariannol sydd ar gael i Weinidogion Cymru ac at wella'r cysylltiadau ynglŷn â chyllid.<sup>31</sup> Roedd y rhain yn cynnwys:

- gallu dod â dyraniadau cyfalaf ymlaen dros gyfnod yr adolygiad o wariant, gan ganiatáu i gyllidebau cyfalaf gael eu 'llyfnhau';
- gallu symud cronfeydd o'r gyllideb gyfalaf i'r gyllideb refeniw;
- rhyddid i gyrchu stociau hyblygrwydd diwedd blwyddyn<sup>32</sup> heb gytundeb Trysorlys EM;
- dylai'r fformiwla ariannu gael ei rhoi ar waith gan gorff ymgynghorol annibynnol ar hyd braich o'r Llywodraeth; dylai'r tryloywder gael ei wella drwy gynhyrchu cyhoeddiad blynyddol sy'n caniatáu cymhariaeth rhwng gwariant Cymru yn unol â fformiwla Barnett a'r gwariant tebyg yn Lloegr; a

---

<sup>29</sup> Y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid yng Nghymru, [\*Adroddiad cyntaf: Ariannu Llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru: Barnett a'r tu hwnt\*](#), Gorffennaf 2009 t. 68

<sup>30</sup> Mae dadansoddiad yn yr adroddiad yn awgrymu y byddai Cymru'n cael £114 (yn hytrach na'r £112 a gaiff ar hyn o bryd) ar gyfer pob £100 a gaiff ei wario yn Lloegr, pe byddai'r swm yn cael ei bennu ar sail fformiwla ariannu Lloegr. Addasiad syml i osgoi cydgyfeirio pellach fyddai llusgi unrhyw gynnydd cadarnhaol a ddyrennir i Gymru â 114 y cant; gan felly osod llawr ar gyfer y cyllid i Gymru ac osgoi cydgyfeirio pellach.

<sup>31</sup> Y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid yng Nghymru, [\*Adroddiad cyntaf: Ariannu Llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru: Barnett a'r tu hwnt\*](#), Gorffennaf 2009

<sup>32</sup> Hyblygrwydd diwedd blwyddyn (HDB) - mae hwn yn ddull a oedd yn caniatáu cario tanwariant ymlaen o un flwyddyn i flynyddoedd canlynol, i sicrhau bod unrhyw danwariant yn parhau i fod ar gael, yn hytrach na'i fod yn cael ei anfon yn ôl i Drysorlys ei Mawrhydi. Ers cyhoeddi adroddiad y Comisiwn, mae Llywodraeth y DU wedi tynnu'r system HDB yn ôl yn ogystal â stociau Cymru o'r HDB (Trysorlys EM, [\*Spending Review 2010\*](#), Hydref 2010 tud. 18). Yn ei le, sefydlwyd System Cyfnewid Cyllideb. Nid yw'r system hon yn caniatáu cronni stociau dros amser, a felly nid yw cael hyblygrwydd o ran cael mynediad i stociau yn berthnasol bellach .

- dylai un o Weinidogion y Trysorlys ddod i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad, o leiaf unwaith yng nghyfnod pob adolygid o wariant, i drafod materion sy'n ymwneud â Chymru.

Trafododd y Cynulliad Cenedlaethol adroddiad interim y Comisiwn ym mis Hydref 2009.<sup>33</sup> Rhoddodd Llywodraeth Cymru ar y pryd groeso i'r adroddiad a datgan ei bwriad i drafod argymhellion yr adroddiad gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig.<sup>34</sup>

Cyhoeddodd y Comisiwn ei adroddiad terfynol, *Tegwch ac atebolrwydd: setliad ariannu newydd i Gymru*, ym mis Gorffennaf 2010.<sup>35</sup> Cyflwynodd ganfyddiadau ail gyfnod gwaith y Comisiwn, yn edrych ar ddulliau ariannu gwahanol i Gymru, gan gynnwys y cyfle i Weinidogion Cymru gael pwerau i amrywio trethi a mwy o bwerau i fenthyca.

Ystyriodd y Comisiwn **opsiynau a oedd yn gyson â'r setliad datganoli presennol (neu'r setliad yn sgil refferendwm o blaid gwell pwerau deddfu)**, ac felly ni chafodd modelau ymreolaeth ariannol eu hystyried. Mae adroddiad terfynol y Comisiwn:

- yn rhoi tystiolaeth am sut y gallai **system ariannu wedi'i seilio ar anghenion** weithredu mewn modd sy'n deg i bob rhanbarth yn y Deyrnas Unedig;
- yn gwneud yr achos o blaid **datganoli detholiad o bwerau i amrywio trethi i Gymru**: gan gynnwys o bosibl treth incwm, treth gorfforaeth, treth tir y doll stamp, treth enillion cyfalaf, a mân drethi fel treth tirlenwi, toll teithwyr awyr a'r ardoll agregau;
- yn argymhell pŵer i gyflwyno **trethi newydd sy'n benodol i Gymru**; ac
- yn argymhell **pwerau benthyca cyfyngedig** i Weinidogion Cymru.

Y prif wendidau a welwyd yn y system gyfredol oedd **diffyg tegwch ac atebolrwydd**, ac felly nod argymhelliad y Comisiwn o gael system wedi'i seilio ar anghenion yn ei lle yw sicrhau system ariannu deg. Dywedodd yr adroddiad hefyd y **byddai datganoli rhywfaint o bwerau treth yn gwella atebolrwydd y setliad presennol**.

Mae'r adroddiad yn awgrymu mai 2015 fyddai'r opsiwn ymarferol cynharaf i ddatganoli unrhyw bwerau i amrywio trethi. Ond, fe allai pwerau mwy cyfyngedig ynglŷn â benthyca neu fân drethi ddigwydd cyn hynny. Mae'r adroddiad yn

<sup>33</sup> Cofnod y Trafodion [13 Hydref 2009](#) p47-71

<sup>34</sup> Llywodraeth Cymru, Andrew Davies (y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus), [Datganiad ysgrifenedig ar gyhoeddi rhan 1 adroddiad Comisiwn Holtham](#), Datganiad Cabinet Ysgrifenedig, 7 Gorffennaf 2009

<sup>35</sup> Y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid yng Nghymru, [Adroddiad terfynol: Tegwch ac atebolrwydd: setliad ariannu newydd i Gymru](#), (Saesneg yn unig), Gorffennaf 2010 [fel ar 25 Mai 2011]



cyflwyno'r ddadl y dylai Cymru gael ei chynnwys ym mhob cam o'r trafodaethau, gan fod trafodaethau wedi dechrau ynghylch datganoli ariannol mewn manau eraill yn y Deyrnas Unedig, a hynny ar y rhagdybiaeth y gallai pwerau tebyg gael eu rhoi i Gymru.

Awgrymir y dylai'r cyfrifoldeb dros unrhyw drethi datganoledig aros yn nwylo **Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi** (yn gyson ag argymhellion Calman). Er hynny, os bydd pwerau i amrywio trethi'n cael eu datganoli mae'n debyg y bydd angen rhyw fath o gymorth arbenigol i helpu i benderfynu ar y polisi treth.

Mae'r adroddiad yn dweud mai mater i Weinidogion Cymru fyddai penderfynu a fyddai angen **refferendwm cyn i unrhyw bwerau i amrywio trethi gael eu datganoli**, er ei fod yn awgrymu mai'r tebygrwydd yw mai dim ond ar ôl refferendwm y byddai pŵer dros dreth incwm yn cael ei ddatganoli, gan y gallai hynny fod yn newid rhy arwyddocaol heb i'r cyhoedd ei gymeradwyo.

Mewn ymateb i adroddiad terfynol y Comisiwn, cyhoeddodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb ar y pryd (Jane Hutt AC) ddatganiad bod Llywodraeth Cymru'n croesawu'r ffaith bod yr adroddiad wedi dangos sut y gallai system wedi'i seilio ar anghenion weithio ac y bydden nhw'n dal i bwysu ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i gyflwyno llawr yn yr Adolygiad arfaethedig o Wariant (2010). Aeth yn ei blaen i ddweud y byddai angen rhoi ystyriaeth i'r argymhellion ar bwerau i amrywio trethi ac i fenthyca.<sup>36</sup>

Cyn cyhoeddi adroddiad terfynol y Comisiwn, dywedodd Llywodraeth glymblaid bresennol y Deyrnas Unedig, yn ei rhaglen lywodraethu:

We recognise the concerns expressed by the Holtham Commission on the system of devolution funding. However, at this time the priority must be to reduce the deficit and therefore any change to the system must await the stabilisation of the public finances. Depending on the outcome of the forthcoming referendum, we will establish a process similar to the Calman Commission for the Welsh Assembly.<sup>37</sup>

Trafododd y Cynulliad Cenedlaethol adroddiad terfynol y Comisiwn ym mis Hydref 2010. Yn unfrydol, ategodd y Cynulliad gynnig yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i gyflwyno llawr ariannu, ac y dylid wedyn ddiwygio'r trefniadau ariannu cyfredol yn ehangach.<sup>38</sup> O ran pwerau i amrywio trethi, penderfynwyd mai mater i bobl Cymru yw hyn a dywedodd y Prif Weinidog (Carwyn Jones AC) y byddai angen refferendwm yn ei gylch.<sup>39</sup>

---

<sup>36</sup> Llywodraeth Cymru, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt AC), [\*Cyhoeddi adroddiad terfynol Comisiwn Holtham\*](#), Datganiad Cabinet Ysgrifenedig, 6 Gorffennaf 2010

<sup>37</sup> Llywodraeth EM, [\*The Coalition: Our programme for Government\*](#), 2010 (o dan 'Political Reform')

<sup>38</sup> Cofnod y Trafodion [\*12 Hydref 2010\*](#) p51-66

<sup>39</sup> Erthygl newyddion gan y BBC, [\*Voters must decide on devolved tax powers, says Jones\*](#), 10 Mawrth 2011 [fel ar 25 Mai 2011]

#### 4. Bil yr Alban<sup>40</sup>

Ar 30 Tachwedd 2010, cyflwynodd Llywodraeth y DU *Fil yr Alban* yn San Steffan a chyhoeddodd bapur gorchymyn, *Strengthening Scotland's Future*. Mae'r Bil yn cynnwys cymalau sy'n ymdrin â nifer o argymhellion Comisiwn Calman, gan gynnwys:

- rhoi pwerau ar fethdalau a chofrestru gweithwyr iechyd proffesiynol yn ôl i San Steffan;
- cynyddu rôl Llywodraeth yr Alban yn y broses o ddethol aelodau'r Alban o ymddiriedolaeth y BBC a Chomisiynwyr Ystâd y Goron; a
- datganoli pwerau i Weinidogion yr Alban o ran gweinyddu etholiadau'r Alban, rheoleiddio arfau awyr, terfynau cyflymder a therfynau yfed a gyrru.

Mae'r Bil hefyd yn cynnwys cymalau sy'n ymdrin â phynciau nad oeddent yn rhan o argymhellion y Comisiwn, fel:

- ail-enwi Gweithrediaeth yr Alban yn Llywodraeth yr Alban;
- cadw'r cyfrifoldeb dros reoleiddio gweithgareddau yn Antarctica; a
- rhoi rôl i Oruchaf Lys y Deyrnas Unedig o ran craffu ar Ddeddfau Senedd yr Alban.

Mae'r Bil hefyd yn cynnwys cymalau sy'n ceisio rhoi ar waith yn rhannol argymhellion Calman ynghylch cyllid. Maent yn cynnwys:

- cymalau i ddileu cyfradd amrywiol yr Alban, sefydlu treth incwm yr Alban i gymryd lle rhan o dreth incwm y DU;
- datganoli treth stamp, treth tir a threth tirlenwi;
- darparu pwerau i greu neu ddatganoli trethi eraill; a
- darparu pwerau benthyca newydd.

Yn dilyn cyflwyno'r Bil, sefydlodd Senedd yr Alban bwyllgor ad hoc. Gofynnwyd iddo ystyried y Bil ac unrhyw femoranda cydsyniad deddfwriaethol perthnasol ac argymell a ddylai'r Senedd roi ei gydsyniad i'r Bil.<sup>41</sup> Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor ar Fil yr Alban a memoranda cydsyniad deddfwriaethol perthnasol ar 3 Mawrth 2011, a hynny cyn diwrnod cyntaf ei gyfnod pwyllgorau yn Nhŷ'r Cyffredin. Bu'r Pwyllgor Materion yr Alban yn San Steffan hefyd yn craffu ar y Bil.

Mae'r Bil wedi cwblhau ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin ac wedi cael ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi. Bwriedir cynnal yr Ail Ddarlleniad ar 6 Medi 2011. Yn dilyn llwyddiant yr SNP yn etholiadau'r Alban ym mis Mai 2011, diwygiwyd y Bil ymhellach, gan gynnwys:

---

<sup>40</sup> [Y Gwasanaeth Ymchwil, \*The Scotland Bill, Papur ymchwil 01/11, Ionawr 2011\*](#) (Saesneg yn unig)

<sup>41</sup> [SPICe, \*Key Issues for the Parliament in Session 4, 11/028, 6 Mai 2011\*](#)

- cyflwyno pŵer a fydd yn galluogi Llywodraeth y DU i ddiwygio, yn y dyfodol, y ffordd y gall Gweinidogion yr Alban fenthycu er mwyn cynnwys yswiriant bondiau, heb yr angen am ddeddfwriaeth sylfaenol bellach. Bydd Llywodraeth y DU yn cynnal adolygiad o gostau a manteision yswiriant bondiau dros ffyrdd eraill o fenthycu, a bydd yn ystyried ymestyn pwerau Gweinidogion yr Alban pan na fydd hynny yn tanseilio sefyllfa gyllidol gyffredinol y DU nac yn cael effaith negyddol ar gyfanswm yr arian a fenthycir gan y DU;
- dileu'r gofyniad bod Gweinidogion yr Alban yn amsugno'r £125 miliwn cyntaf o amrywiaethau o ran rhagolygon treth yn eu cyllideb. Bydd hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i Lywodraeth yr Alban benderfynu ar y ffordd orau o ymateb i amrywiaethau mewn derbyniadau treth o'u cymharu â'r rhagolygon;
- caniatáu i Weinidogion yr Alban wneud taliadau yn ôl disgrisiwn i gronfa arian wrth gefn yr Alban dros y bum mlynedd nesaf, hyd at gyfanswm o £125 miliwn - bydd hyn yn helpu i reoli unrhyw amrywiaeth mewn derbyniadau treth incwm yr Alban o'u cymharu â'r rhagolygon yng nghyfnod cyntaf y system newydd; a
- chyflwyno cyn-daliadau, ffurf o flaenswm ariannol, yn 2011 er mwyn caniatáu i'r gwaith ddechrau ar groesfan newydd dros yr afon Forth.<sup>42</sup>

Yn dilyn etholiadau'r Alban, ail-ffurfiwyd Pwyllgor Bil yr Alban yn Senedd yr Alban ac mae ei gyloch gwaith fel a ganlyn:

Consider the Scotland Bill, proposed amendments to the Bill, responses to the report of the Session 3 Scotland Bill Committee, and to report to the Parliament.<sup>43</sup>

---

<sup>42</sup> [Swyddfa'r Alban , UK Government announces Scotland Bill changes, Datganiad i'r Wasg, 13 Mehefin 2011.](#)

<sup>43</sup> [Gwefan Senedd yr Alban \[fel ar 27 Gorffennaf 2011\]](#)

## 5. Adolygiadau o ddatganoli yng Nghymru ers 1999

Pan ymddangosodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru gerbron y Pwyllgor Dethol Materion Cymreig yn San Steffan ar 13 Medi 2011, gofynnodd Jonathan Edwards AS iddi a fyddai gan y comisiwn arfaethedig ar ffurf Comisiwn Calman gylch gwaith mor eang â'r comisiwn a sefydlwyd yn yr Alban. Dywedodd mai Comisiwn Calman oedd yr adolygiad cynhwysfawr cyntaf o Ddeddf yr Alban 1998, ond y cyflwynwyd Deddf newydd yng Nghymru yn 2006 a gyflwynodd newidiadau pellgyrhaeddol i'r setliad.<sup>44</sup>

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r adolygiadau o ddatganoli yng Nghymru a gynhaliwyd ers 1999 a'r prif newidiadau a ddeilliodd ohonynt.

### 5.1. *Comisiwn Richard*

Penodwyd Comisiwn Richard ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Brif Weinidog Cymru ym mis Gorffennaf 2002 i gynnal adolygiad o:

- cwmpas pwerau'r Cynulliad: a ydynt yn ddigonol i ddiwallu anghenion Cymru; a
- nifer yr Aelodau Cynulliad etholedig a sut y cânt eu hethol.

Penodwyd y Cadeirydd, yr Arglwydd Richard o Rydaman, gan Brif Weinidog Cymru ar y pryd, sef y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan AC. Enwebwyd pedwar o aelodau ar y cyd gan arweinwyr y pedair plaid wleidyddol yn y Cynulliad, a dewiswyd pum aelod drwy hysbysebu'n gyhoeddus a chyfweliadau.

Roedd y Comisiwn yn honni ei fod wedi mynd i'r afael â'i gylch gwaith o safbwynt eang ac ymarferol, gan edrych ar sut mae'r trefniadau'n gweithio ar hyn o bryd a pha broblemau a gododd, os o gwbl. Cynhaliodd 115 o sesiynau tystiolaeth agored, tri seminar a naw cyfarfod cyhoeddus ledled Cymru, a chafodd 300 darn o dystiolaeth ysgrifenedig fel ymateb i'r ddau bapur ymgynghori a gyhoeddwyd ganddo.

Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth 2004, a chytunodd y Comisiwn arno yn unfrydol ond atodwyd llythyr gan Ted Rowlands yn amlinellu ei amheuon ynghylch disodli'r trefniadau presennol ar ôl dim ond pedair blynedd. Fodd bynnag, dywedodd "efallai y bydd y profiad o weithredu'r setliad dros y blynnyddoedd sy'n dod yn cyfiawnhau newid o'r fath. Os felly, credaf y bydd ein hadroddiad yn gyfraniad pwysig i drafodaeth wybodus".

Roedd argymhellion y Comisiwn fel a ganlyn:

---

<sup>44</sup> Pwyllgor Dethol Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin, 13 Gorffennaf 2011, Parliament TV

- y dylid sefydlu Cynulliad deddfwriaethol i Gymru;
- yn y cyfamser, y dylid ymestyn y pwerau fframwaith dirprwyedig cyn belled â phosib gyda chytundeb Llywodraeth a Senedd y DU;
- os bydd Cynulliad deddfwriaethol yn cael ei sefydlu, byddai'n ddymunol, er nad yn angenrheidiol, iddo gael pwerau amrywio trethi;
- er mwyn iddo ymarfer ei bwerau sylfaenol, bod angen cynyddu aelodaeth y Cynulliad i 80 Aelod;
- y dylid ailsefydlu strwythur y Cynulliad gyda gweithrediaeth a chorff deddfwriaethol ar wahân;
- na all y system bleidleisio bresennol gynnal cynnydd i 80 - y system amgen orau yw'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy;
- y dylai'r newidiadau hyn fod wedi'u sefydlu erbyn 2011 neu ynghynt os yw hynny'n ymarferol.

Ar ôl cyhoeddi adroddiad Comisiwn Richard ym mis Mawrth 2004, pasiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru benderfyniad ym mis Hydref 2004<sup>45</sup>, yn galw ar Brif Weinidog Cymru i annog Ysgrifennydd Gwladol Cymru i gyflwyno cynigion i ddiwygio *Deddf Llywodraeth Cymru 1998* at y dibenion a ganlyn:

- gwahanu canghennau deddfwriaethol a gweithredol Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r ffordd y caiff pŵer ei ddyrannu rhwng y ddwy gangen;
- pwerau deddfwriaethol ychwanegol; a
- chywiro rhai o'r anghysondebau yn y system etholiadol ar gyfer y Cynulliad.

## 5.2. Y Papur Gwyn: Trefn Llywodraethu Gwell i Gymru

Ym mis Mehefin 2005, cyhoeddwyd Papur Gwyn Llywodraeth y DU *Trefn Llywodraethu Gwell i Gymru* (Cm.6582). Mae'n nodi sut roedd Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflawni'r ymrwymadau polisi hynny. Roedd y papur yn cynnig rhannu canghennau gweithredol a deddfwriaethol y Cynulliad yn ffurfiol drwy ddileu ei statws fel corff corfforaethol a newid natur yr awdurdod gweithredol fel bod Prif Weinidog Cymru a Gweinidogion Cymru yn cael eu penodi gan y Frenhines. Roedd hefyd yn cynnig deddfu er mwyn atal pobl rhag sefyll fel ymgeiswyr etholaethol yn ogystal â fel ymgeiswyr ar y rhestr ranbarthol.

O ran pwerau deddfwriaethol y Cynulliad, cynigiodd Llywodraeth y DU eu cynyddu mewn tri cham drwy:

---

<sup>45</sup> Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2004, p.33

- Sicrhau bod deddfwriaeth sylfaenol yn cael ei drafftio mewn ffordd gyson mewn perthynas â Chymru ac mewn ffordd a fyddai'n rhoi'r rhyddid mwyaf posibl i'r Cynulliad o ran gwneud ei ddarpariaethau ei hun, sef "pwerau fframwaith".
- Cyflwyno deddfwriaeth gynradd i roi gweithdrefn ar waith a fyddai'n galluogi Senedd y DU i roi pwerau i'r Cynulliad ddiwygio deddfwriaeth neu wneud darpariaethau newydd ar faterion penodol neu mewn meysydd penodol o fewn swyddogaethau datganoledig. Byddai hyn yn golygu gwneud Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor ar gais y Cynulliad a'u pasio gan Senedd y DU drwy'r weithdrefn gadarnhaol.
- Cyflwyno'r posibilrwydd o bwerau deddfu sylfaenol os byddai dau Dŷ Senedd y DU, y Cynulliad a refferendwm yn pleidleisio o blaid hynny.

Yn dilyn cyhoeddi'r Papur Gwyn, sefydlodd y Cynulliad bwyllgor i ystyried y cynigion ar gyfer y strwythur arfaethedig newydd a'i bwerau deddfwriaethol. Gosododd y Pwyllgor adroddiad gerbron y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn ar 21 Medi 2005 cyn cyflwyno ei adroddiad<sup>46</sup> i Lywodraeth y DU yng nghanol mis Medi.<sup>47</sup>

Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan ystod eang o dystion gan gynnwys arweinyddion pleidiau; cadeiryddion pwyllgorau; yr Ysgrifennydd Parhaol; undebau llafur; uwch swyddogion seneddol o'r Alban a San Steffan ac academyddion. Roedd llawer o'r dystiolaeth yn trafod y gweithdrefnau tebygol ar gyfer Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn y Cynulliad ac yn San Steffan a'r newidiadau i lwyth gwaith y Cynulliad yn ei bwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn a fyddai'n deillio o hynny, a natur y gwaith hwnnw. Hefyd, cynhaliodd Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin ymchwiliad i'r Papur Gwyn. Cyhoeddwyd yr adroddiad<sup>48</sup> ar 13 Rhagfyr 2005.

---

<sup>46</sup> Papur Gwyn Trefn Llywodraethu Gwell i Gymru, *Adroddiad y Papur Gwyn ar Drefn Llywodraethu Gwell i Gymru*, LD3999, 13 Medi 2005.

<sup>47</sup> Cofnod y Trafodion 21 Medi 2005 p47

<sup>48</sup> [Y Pwyllgor Materion Cymreig, Papur Gwyn Llywodraeth y DU, Adroddiad ar Drefn Llywodraethu Gwell i Gymru, 13 Rhagfyr 2005, HC551, 2005-2006.](#)

### 5.3. *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*

Roedd *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* yn rhoi prif argymhellion *Trefn Llywodraethu Gwell i Gymru* ar waith.

Roedd yn creu gwahaniad ffurfiol rhwng:

- y gangen ddeddfwriaethol: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n cynnwys 60 o Aelodau'r Cynulliad; a
- y gangen weithredol: Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n cynnwys Prif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru, Dirprwy Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol.

Roedd yn rhoi Rhan 3 o'r Ddeddf ar waith gan ganiatáu i'r Cynulliad geisio cymhwysedd deddfwriaethol gan Senedd y DU i greu categori newydd o ddeddfwriaeth, sef "Mesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru" neu "Measures of the National Assembly for Wales" ("Mesurau'r Cynulliad"). Gellid ceisio cymhwysedd deddfwriaethol drwy gymalau mewn Biliau San Steffan neu drwy ddull symlach, o bosibl, sef Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Dyma sut wnaeth y Trydydd Cynulliad weithredu rhwng 2007 a 2011.

Roedd y Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob ymgeisydd a oedd yn sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad Cynulliad ddewis i fod un ai'n gynrychiolydd etholaethol neu ar restr ranbarthol. Ni chaniateir iddynt sefyll fel ymgeisydd ar gyfer y ddau bellach. Cynhaliwyd etholiad y Cynulliad yn 2007 ac yn 2011 ar y sail honno.

### 5.4. *Confensiwn Cymru Gyfan*

Roedd *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* hefyd yn cynnwys darpariaethau i'r Cynulliad gael pwerau deddfu sylfaenol yn y meysydd datganoledig. Byddai'r rhain yn cael eu galw'n "Ddeddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru" neu "Acts of the National Assembly for Wales". Byddai'r ddarpariaethau hyn ond yn cael eu sbarduno gan:

- Ddwy ran o dair o holl Aelodau'r Cynulliad yn pleidleisio o blaid refferendwm;
- cymeradwyaeth Llywodraeth a Senedd y DU; a
- phleidlais gadarnhaol mewn refferendwm o bobl Cymru.

Yn ôl Cytundeb Cymru'n Un, a oedd yn ategu y glymblaid rhwng y Blaid Lafura Phlaid Cymru rhwng 2007 a 2011:

Ymrwymwn gyda'n gilydd i ddefnyddio i'r eithaf ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006 o dan Ran III ac i symud ymlaen cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl i gael canlyniad llwyddiannus mewn refferendwm ar bwerau deddfu llawn o dan Ran IV, ar ddiwedd y tymor Cynulliad hwn neu cyn hynny.

Mae'r ddwy blaid yn cytuno'n ddiffuant i ymgyrchu o blaid canlyniad llwyddiannus mewn refferendwm o'r fath. Bydd y paratodau yn dechrau ar unwaith ar gyfer sicrhau'r canlyniad llwyddiannus hwnnw. Byddwn yn sefydlu Confensiwn Cymru Gyfan o fewn chwe mis a chaiff grŵp o Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad o'r ddwy blaid eu comisiynu i bennu cylch gorchwyl ac aelodaeth y Confensiwn, ar sail cynrychiolaeth eang o'r gymdeithas sifig. Bydd y ddwy blaid wedyn yn pwyso a mesur llwyddiant y broses o ddechrau defnyddio'r pwerau deddfwriaethol sydd ar gael eisoes a, thrwy fonitro'r farn gyhoeddus, bydd angen iddynt asesu lefel y gefnogaeth ar gyfer pwerau deddfu llawn a fydd yn angenrheidiol er mwyn cynnal y refferendwm.<sup>49</sup>

Ym mis Hydref 2007, cyhoeddodd y Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan AC, Prif Weinidog Cymru ar y pryd, y byddai Syr Emyr Jones Parry, cyn lysgennad i'r Cenhedloedd Unedig, yn cadeirio'r Confensiwn. Yn y lle cyntaf, daeth grŵp o Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Cynulliad - Pwyllgor Sefydlu - ynghyd i lunio cylch gorchwyl y Confensiwn; awgrymu *modus operandi* a chynnig cyngor ar aelodaeth. Cyfarfu'r Pwyllgor rhwng mis Rhagfyr 2007 a mis Mawrth 2008. Yn ei adroddiad<sup>50</sup>, dywedodd y byddai'r Comisiwn yn:

- codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth ynghylch y trefniadau presennol ar gyfer llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru a'r darpariaethau yn Rhan 4 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* a'u goblygiadau yn y dyfodol o ran llywodraethu yng Nghymru;
- hwyluso ac ysgogi ymgynghori eang, trylwyr a chyfranogol ar bob lefel o gymdeithas yng Nghymru ynghylch pwerau deddfu llawn;
- paratoi dadansoddiad o'r sylwadau a fynegwyd a'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn sgil y broses hon;
- asesu beth yw lefel cefnogaeth y cyhoedd ynghylch rhoi pwerau deddfu sylfaenol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru;
- cyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru'n Un ar ei ganfyddiadau, gydag argymhellion yn ymwneud â chynnal refferendwm.

O ran sut y dylai'r Confensiwn symud ymlaen, dywedodd y Pwyllgor Sefydlu:

The Establishing Committee believes that a successful Convention will require the broadest possible debate. The Convention will need to engage organised groups (for example the trade unions, business organisations and national voluntary organisations). It is also important that it reaches out to individuals, groups and communities that have not been involved before in such debates. Children and young people must also be engaged in the process, since it is their future the Convention will be debating. We recognise that such a broad approach presents challenges in terms of working methods and resources. However

---

<sup>49</sup> *Cytundeb Cymru'n Un rhwng grwpiau'r Blaid Lafur a Phlaid Cymru, Mehefin 2007*. t6

<sup>50</sup> Adroddiad Pwyllgor Sefydlu'r Confensiwn Cymru Gyfan, Mawrth 2008.



we believe it is essential if the Convention is to meet the requirements of its Terms of Reference.<sup>51</sup>

Argymhellodd adroddiad y Pwyllgor Sefydlu y dylid penodi pwyllgor gweithredol o 12 i 15 o bobl o wahanol sectorau. Confensiwn Cymru Gyfan fyddai'r enw'r ymgynghoriad a'r broses ymgynghori yn ei chyfanrwydd. Felly, byddai pob un sy'n mynd i gyfarfod cyhoeddus, yn cyflwyno ymateb ysgrifenedig neu'n cymryd rhan mewn trafodaeth ac sy'n mynegi dymuniad i wneud hynny yn cael ei ystyried yn gyfranogwr i'r Confensiwn. Aeth ymlaen i ddweud:

We recognise that this is a radical and challenging approach, but we believe it to be necessary if the Convention is to expand debate beyond those who would normally become involved, and if it is to be seen to have done so. It will be for the Executive Committee to determine what feedback, if any, should be given to those participating in the All Wales Convention in its widest sense.<sup>52</sup>

Roedd gan bwyllgor gweithredu'r Confensiwn 16 o aelodau, ynghyd â'r Cadeirydd, Syr Emyr Jones Parry, ac roedd yr aelodaeth yn cynnwys y canlynol:

- pedwar aelod o'r cyhoedd a benodwyd drwy broses o gystadleuaeth agored.
- wyth aelod a benodwyd drwy enwebiadau gan sefydliadau allweddol yng Nghymru.
- Pedwar aelod a benodwyd gan y prif bleidiau gwleidyddol.

Dechreuodd y pwyllgor gweithredol gyfarfod ym mis Gorffennaf 2008. Ar ddiwedd 2008, roedd y Confensiwn yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r setliad datganoli presennol - 'lle rydym ni nawr' - ac ymwelodd yr opsiynau ar gyfer aelodau'r pwyllgor yn y dyfodol â nifer o gynadleddau a digwyddiadau - gan gynnwys cynhadledd flynyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn Llandudno a Ffair Aeaf Frenhinol Cymru.

O fis Ionawr 2009 ymlaen, dechreuodd y Confensiwn ganolbwyntio fwy ar ymgysylltu â phobl yn y ddadl ar ddatganoli pellach, gyda'r bwriad o wneud hynny'n brif ffocws.<sup>53</sup> Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ledled Cymru. Roedd y rhain ar ffurfiau gwahanol, gan gynnwys sioe deithiol a sesiynau holi ac ateb.

Dadleuodd Syr Emyr Jones Parry nad rôl y pwyllgor gweithredol oedd cyflwyno'r ddadl o blaid refferendwm, na dadlau o blaid unrhyw ganlyniad penodol. Mater i'r gwleidyddion oedd hwnnw, ar ôl i'r Confensiwn gyflwyno ei adroddiad iddynt.<sup>54</sup> Roedd rhai o wrthwynebwyr pwerau pellach i'r Cynulliad - fel Gwir Gymru - yn anghytuno â hyn, gan ddadlau mai ymgyrch "ie" *de facto* ydoedd.<sup>55</sup>

---

<sup>51</sup> Ibid.

<sup>52</sup> Ibid.

<sup>53</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cynllun Gweithredu Cymru'n Un 2007-2011

<sup>54</sup> Syr Emyr Jones Parry, Crynodeb o araith a roddwyd i gynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 10 Hydref 2008.

<sup>55</sup> [BBC Cymru, \*Fledgling No Campaign Launched 25 Medi 2009\*](#).

Cyhoeddwyd yr [adroddiad terfynol](#)<sup>56</sup> ym mis Tachwedd 2009. Daeth i'r casgliad a ganlyn:

Rydym wedi ein hargyhoeddi bod Rhan 4 yn cynnig manteision sylweddol o'i chymharu â'r trefniadau presennol yn Rhan 3. Byddai'n golygu gwell effeithlonrwydd, yn caniatáu i'r ddeddfwriaeth gael ei drafftio mewn ffordd strategol, yn rhoi mwy o eglurder, yn fwy cyson â rheol y gyfraith a thraddodiad democrataidd, ac yn adlewyrchu aeddfedrwydd datblygol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Dywedodd hefyd:

Gwelwyd bod y rhan fwyaf o bobl yng Nghymru wedi dechrau derbyn datganoli fel rhan o fywyd bob dydd. Bu cryn ddadl ynghylch a oedd bob amser yn llwyddiant, ond roedd pobl Cymru yn gyson o blaid datganoli. Fodd bynnag, ar ôl i ni ddechrau gofyn cwestiynau ynglyŵn â phrosesau datganoli, daeth yn amlwg nad oedd fawr ddealltwriaeth o gymhlethdodau'r trefniadau presennol. Nid oedd pobl yn deall gan bwy yn union oedd y pŵer i wneud beth na sut roedd cyfreithiau yn cael eu gwneud.

Daeth i'r casgliad bod modd sicrhau pleidlais "ie" mewn refferendwm, ond bod y dystiolaeth a gasglwyd ganddo yn tanlinellu'r ffaith nad oedd modd bod yn sicr am hyn.

---

<sup>56</sup> [Confensiwn Cymru Gyfan, Adroddiad Terfynol, Tachwedd 2009](#)

## 6. Ap Calman?

Daeth y syniad o greu Comisiwn tebyg i Gomisiwn Calman o gytundeb Llywodraeth Glymblaid y DU yn 2010. Byrdwn y ddadl yng Nghymru yn ystod Etholiad Cyffredinol 2010 oedd i ba raddau y byddai Llywodraeth newydd y DU yn gweithredu argymhellion Comisiwn Holtham, ond roedd defnyddio'r term "ap Calman"<sup>57</sup> wedi codi disgwyliadau o ran beth fyddai'n ei gynnwys.

Dylid cofio bod yr SNP wedi gwrthwynebu'r syniad o greu Comisiwn Calman. Ym mis Awst 2007, cyhoeddodd y Llywodraeth SNP newydd bapur gwyn ar opsiynau cyfansoddiadol yr Alban - *Choosing Scotland's Future* - a lansiodd drafodaeth genedlaethol sef proses ymgynghori ynghylch themâu'r papur gwyn. Ychydig dros dri mis yn ddiweddarach, penderfynodd Senedd yr Alban (drwy bleidlais ei fwyafrif uniolaethol) sefydlu comisiwn i'w gadeirio yn annibynnol i gynnal adolygiad o ddatganoli yn yr Alban. Mynegodd Llywodraeth y DU ei chefnogaeth i'r comisiwn hwn ym mis Ionawr 2008.<sup>58</sup> Felly, roedd cylch gwaith Calman yn benodol yn eithrio annibyniaeth fel opsiwn, gan adlewyrchu gwreiddiau Comisiwn Calman mewn trafodaethau ymysg y pleidiau unoliaethol ar ddiwedd 2007. Nid oedd gan y 'drafodaeth genedlaethol', a oedd yn adlewyrchu uchelgais yr SNP o sicrhau annibyniaeth i'r Alban, gylch gwaith o ddiogelu sefyllfa'r Alban yn y DU.<sup>59</sup> Roedd ymateb swyddogol Llywodraeth yr Alban i'r adroddiad terfynol yn llugoes.<sup>60</sup>

Felly, mae'n ymddangos bod "Calman" yn golygu pethau gwahanol i rannau gwahanol o'r sbectrwm gwleidyddol. Ymhellach, datblygwyd y safbwyntiau hynny o amgylch y ddadl gyfansoddiadol yn yr Alban. Mae natur amghymesurol datganoli yn y DU wedi bod yn glir o'r cychwyn cyntaf a dylid bod yn ofalus o ran cymharu'r Alban i Gymru yn uniongyrchol.

Mae'r Arglwydd Wigley o Blaid Cymru eisoes wedi dweud bod angen cylch gwaith eang ar y comisiwn a'i bod yn hanfodol cael consensws trawsbleidiol ar ei gylch gorchwyl. Mae'n ymddangos mai'r meini prawf hyn yw cynnwys y llythyr trawsbleidiol a anfonwyd at yr Ysgrifennydd Gwladol a gaiff ei grybwyll yn adran 2.

Dywedodd yr Arglwydd Wigley:

Fel Comisiwn Calman gwreiddiol yn yr Alban, mae angen i'r comisiwn Cymreig gael cylch gorchwyl eang i ymchwilio i'r setliad datganoli ehangach. Rhaid i hyn fynd y tu hwnt i ddim ond trafod pwerau cyllidol i Gymru.

---

<sup>57</sup> [Alan Trench, Cheryl Gillan at the Welsh Affairs Committee and ap Calman, blog Devolution Matters, 13 Gorffennaf 2010.](#)

<sup>58</sup> [Charlie Jeffrey, "An outbreak of consensus: Scottish politics after devolution", Political Insight](#) Ebrill 2010

<sup>59</sup> Ibid.

<sup>60</sup> Llywodraeth yr Alban, Datganiad i'r Wasg, [Calman Commission](#), 15 Mehefin 2009 [fel ar 1 Awst 2011]

Yn wahanol i'r hyn ddigwyddodd yn yr Alban, mae Cymru wedi cael refferendwm yn ddiweddar a ddangosodd fwyafrif llethol o blaid datganoli pwerau i Gymru.

Dengys y polau piniwn gefnogaeth i ddatganoli mwy o bwerau, megis plismona a chyfiawnder. Mae ar Gymru angen ei awdurdodaeth gyfreithiol ei hun nawr ei bod yn medru gwneud ei chyfreithiau ei hun.

Rhaid adeiladu ar waith a wnaed eisoes gan Gomisiwn annibynnol Holtham ar gyllido Cymru, yn hytrach na cheisio ei ailadrodd.

Mae llawer o bobl, gan gynnwys Trysorlys y DG, yn ystyried bod gwaith Holtham yn well na'r gwaith a wnaed gan Gomisiwn Calman yn yr Alban, felly pam anwybyddu'r arbenigedd honno?<sup>61</sup>

**Nodwedd ddiddorol o'r cylch gorchwyl arfaethedig a nodwyd yn llythyr arweinwyr y pleidiau yw'r gofyniad y dylai gwaith y comisiwn ar ddatganoli ariannol ddigwydd **ochr yn ochr â'r** trafodaethau rhynglywodraethol parhaus ynghylch ariannu **ond ar wahân iddynt**.**

Ar 21 Mehefin 2011, gwnaeth y Prif Weinidog ddatganiad ar ddiwygio ariannol yn y Cyfarfod Llawn. Dywedodd:

Fair funding is the centrepiece, but not the limit, of our ambitions for reform. We need effective borrowing powers as a high priority. That is important to help to fund investment in Welsh infrastructure and to support economic recovery. Wales cannot be the only part of the UK where the Government cannot borrow to fund roads and hospitals. That puts us at a competitive disadvantage compared with other parts of the UK, and we look to the UK Government now to correct this. Wales can compete with anyone, but we need a level playing field.<sup>62</sup>

Gan nodi bod Gweinidogion Llywodraeth y DU wedi mynegi diddordeb mewn archwilio datganoli pwerau dros dreth i Gymru, dywedodd y gallai fod yna fanteision o drosglwyddo pwerau dros rhai trethi i Gymru, yn enwedig yn y meysydd hynny lle datganolwyd gyfrifoldeb dros bolisi yn helaeth neu'n rhannol, a lle mae'r symiau a godir yn gymharol fach o'u cymharu â chyfanswm y gyllideb. Awgrymodd bod treth tirlenwi, treth tir y doll stamp, yr ardoll agregau a'r doll teithwyr awyr yn syrthio i'r categori hwn. Aeth ymlaen i ddweud:

In aggregate, those taxes raise around £200 million a year in Wales, and each may be a useful policy lever to help to deliver the Government's priorities. Risk might also arise from the devolution of tax powers; the precise terms of any deal would be crucial to determining whether devolution would be in the interests of Wales when it comes to taxation.<sup>63</sup>

Nododd ymhellach y gallai treth gorfforaeth ddarparu arf pwerus i hybu datblygu economaidd ond rhybuddiodd hefyd y byddai'r risgiau cyllidebol yn sylweddol

---

<sup>61</sup> [Plaid Cymru, Wigley: Rhaid i 'Calman Cymru' ddysgu gwersi'r Alban, Datganiad i'r Wasg, 14 Gorffennaf 2011](#)

<sup>62</sup> [Cofnod y Trafodion, 21 Mehefin 2011](#)

<sup>63</sup> Ibid.

hefyd. Gan ymateb i'r pwyntiau a godwyd gan Paul Davies AC, eglurodd ymhellach:

Corporation tax must be approached with care. Northern Ireland will see a hole in its budget of about £350 million if responsibility for corporation tax is devolved. The hole would be bigger in Wales. It is right to say that, in theory, if you reduce corporation tax, you will see a subsequent explosion or growth in the number of businesses, all of which pay tax, and so you recoup it over time, but it does take time. One of the estimates for Northern Ireland is that it would take 20 years to recoup the money that would be lost with a corporation tax rate cut to 12.5 per cent.<sup>64</sup>

Fodd bynnag, roedd yn glir ynghylch y ffaith nad oedd Llywodraeth Cymru yn ceisio pwerau i amrywio cyfraddau treth incwm:

The multiple administrative, economic, and legal obstacles to such a move mean that it could, in any case, be feasible only over the longer term. Irrespective of the practical difficulties, there is also a constitutional issue to face. Devolution of income tax-varying powers would represent a fundamental change in the relationship between devolved Government in Wales and our citizens. In my view, there would need to be a referendum before powers to vary income tax rates were passed to the National Assembly, as there was in Scotland in 1997. It appears, from her recent statements in the House of Commons, that the Secretary of State for Wales shares that view.<sup>65</sup>

Ar 6 Gorffennaf 2010, cyfarfu Prif Weinidog Cymru â Changhellor y Trysorlys. Yn ôl y Prif Weinidog roedd y cyfarfod yn adeiladol iawn a dywedodd:

We talked about a wide range of different subjects and we are now going to work together to continue the process of ensuring an appropriate funding package for Wales.<sup>66</sup>

Caiff rhagor o wybodaeth am y Comisiwn, ei aelodaeth a'i gylch gwaith ei chyhoeddi yn y hydref.

---

<sup>64</sup> [Cofnod y Trafodion, 21 Mehefin 2011](#)

<sup>65</sup> [Ibid.](#)

<sup>66</sup> [Newyddion y BBC, Carwyn Jones praises George Osborne approach to funding, 6 Gorffennaf 2011](#) [fel ar 3 Awst 2011]